

Hafan  
Pori  
Awduron A-Z  
Chwiliad testun rhydd  
Chwiliad testun rhydd

English

Linell Amser English

Hafan Pori Awduron A-Z

Chwiliad testun rhydd

PDF Argraffu Cyfeirnod

## GREEN, CHARLES ALFRED HOWELL (1864 - 1944), ail archesgob Cymru

**Enw:** Charles Alfred Howell Green  
**Dyddiad geni:** 1864  
**Dyddiad marw:** 1944  
**Priod:** Katherine Mary Green (née Lewis)  
**Rhiant:** Elizabeth Green  
**Rhiant:** A.J.M. Green  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** ail archesgob Cymru  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Thomas Iorwerth Ellis

Mab hynaf A. J. M. Green, offeiriad, ac Elizabeth ei wraig; ganwyd yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin, 19 Awst 1864. Ar ochr ei fam yr oedd yn or-wŷr i **Peter Williams**. Cafodd ei addysg yn ysgol Charterhouse a choleg Keble, Rhydychen; graddiodd yn B.A. yn 1887 yn y clasuron yn yr ail ddosbarth, ac yn M.A. yn 1892. Yn ei dro, bu'n llyfrgellydd ac yn llywydd yr 'Oxford Union Society'. Urddwyd ef yn ddiagon yn 1888 ac yn offeiriad yn 1889, a bu'n guraad ac yna'n ficer Aberdâr o 1893 hyd ei benodi'n ganon yn eglwys gadeiriol Llandâf ac yn archddiacon Mynwy yn 1914. Pan ffurfiwyd esgobaeth newydd Mynwy yn 1921, ef oedd yr esgob cyntaf; penodwyd ef yn esgob Bangor yn 1928. Wedi i **A. G. Edwards** ymddeol, etholwyd ef (1934) yn archesgob Cymru, a daliodd y swydd honno hyd fis cyn ei farw, 7 Mai 1944; claddwyd ef yn Llandâf. Enillodd raddau B.D. (1907), D.D. (1911), a D.C.L. (1938), ym Mhrifysgol Rhydychen ac yr oedd yn gymrawd anrhydeddus o goleg Keble. Ysgrifennodd *Notes on Churches in the Diocese of Llandaff* (1907), a *The Constitution of the Church in Wales* (1937). Priododd yn 1899, Katherine Mary, merch **William Thomas Lewis**, yr Arglwydd Merthyr cyntaf.

### Awdur

**Thomas Iorwerth Ellis**, (1899 - 1970)

### Ffynonellau

*The Times*, 10 Mai 1944

gwybodaeth bersonol

[ *Who was who?* 1941-50 ]

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Charles Green**

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: **58622868**

Wikidata: **Q1063535**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawffraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Ellis, T. I., (1970). GREEN, CHARLES ALFRED HOWELL (1864 - 1944), ail archesgob Cymru. Y *Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c2-GREE-HOW-1864>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis  
Hawffraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddiadau  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government